***Cyngor Sir Penfro***
***Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017–2033***
***ARCHWILIAD***
**Pembrokeshire County Council**
**Revised Local Development Plan 2017–2033**
**EXAMINATION**

*Arolygydd / Inspector:*
**Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI**

*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*
**Deborah Williamson**

***ff*/t: 01437 775545  e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

4 Awst 2026

Annwyl Syr / Madam

**Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2**

Fy enw i yw Ian Stevens. Fi yw'r arolygydd cynllunio a benodwyd gan Weinidogion Cymru i archwilio cadernid a chydymffurfiaeth gyfreithiol Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2 2017–2033 ('y CDLl'). O hyn ymlaen, fi fydd yn gweinyddu'r archwiliad fel yr unig arolygydd.

Ymgynghorodd y cyngor ar yr ail CDLl Adneuo rhwng 21 Hydref 2024 a 16 Rhagfyr 2024, ac ar newidiadau â ffocws i'r ail CDLl Adneuo rhwng 4 Awst a 15 Medi 2025. Y cynllun y byddwn yn ei archwilio yw'r ail CDLl Adneuo fel y'i diwygiwyd gan y newidiadau â ffocws.

Rwy'n ysgrifennu atoch oherwydd eich bod chi neu'ch sefydliad wedi gwneud sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar y CDLl Adneuo neu'r newidiadau â ffocws.

Deborah Williamson yw'r swyddog rhaglen a fydd yn fy nghynorthwyo gyda'r archwiliad. Er iddi gael ei phenodi gan y cyngor, bydd hi'n gweithio i mi wrth weinyddu'r archwiliad a'r gwrandawiadau ac mae'n annibynnol ar y cyngor. Dylid anfon yr holl ohebiaeth a chyflwyniadau sy'n ymwneud â'r archwiliad at Deborah, y gellir cysylltu â hi gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ym mhennawd y llythyr hwn.

**Cymryd rhan mewn gwrandawiadau a'r dyddiad cau ar gyfer gofyn am gymryd rhan**

Bydd yr archwiliad yn cynnwys cyfres o wrandawiadau cyhoeddus a gynhelir yn rhithiol drwy Microsoft Teams. Rydym yn disgwyl i'r gwrandawiadau hyn ddechrau ddydd Mawrth, 10 Tachwedd 2026 ac i barhau am bedair wythnos, gan gynnwys seibiant yn ystod y drydedd wythnos.

Mae rhaglen wrandawiadau drafft wedi'i chyhoeddi sy'n cynnwys rhestr o gyfranogwyr gwrandawiadau posibl ac amlinelliad o'r materion i'w trafod. **Noder bod hon yn ddogfen 'fyw' ac mae'n destun newid.** Fy nod yw cyhoeddi'r amserlen derfynol ar gyfer y

gwrandawiadau, rhestr bendant o gyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn, a'r rhestr fanwl o faterion, cwestiynau a phroblemau, erbyn 18 Medi 2026.

Bydd y gwrandawiadau ar agor i'r cyhoedd eu harsylwi, ond dim ond y rhai sydd wedi gwneud sylwadau o fewn y cyfnodau amser penodedig ac sydd am weld newidiadau i'r cynllun sydd â'r hawl i gymryd rhan yn y gwrandawiadau. Mae'r rhai sydd eisoes wedi nodi i'r cyngor eu bod yn dymuno dweud eu dweud wedi cael eu neilltuo i sesiynau perthnasol fel y dangosir ar raglen ddrafft y gwrandawiadau. Efallai y byddaf hefyd yn gwahodd cyfranogwyr ychwanegol os ystyrir bod angen hynny ar fater penodol.

Bydd unrhyw sylwadau ysgrifenedig rydych eisoes wedi'u gwneud yn cario'r un pwysau â thystiolaeth lafar a roddir yn ystod y gwrandawiadau. Fodd bynnag, os hoffech siarad mewn gwrandawiad ond nad ydych wedi'ch rhestru ar raglen ddrafft y gwrandawiadau, ac rydych wedi gwneud sylwadau yr ydych yn ystyried sy'n eich gwneud yn gymwys i gymryd rhan mewn gwrandawiad, cysylltwch â'r swyddog rhaglen cyn gynted â phosibl.

**Os ydych chi wedi'ch nodi fel cyfranogwr ar y rhaglen ddrafft ai peidio, mae'n HANFODOL bod pob cyfranogwr yn CADARNHAU eu bwriad i siarad mewn sesiwn wrandawiad gyda'r swyddog rhaglen erbyn hanner dydd ar 28 Awst 2026 fan bellaf. Os nad yw eich cyfranogiad mewn gwrandawiad wedi'i gadarnhau erbyn y dyddiad hwn, byddaf yn cymryd yn ganiataol eich bod yn hapus i'ch barn gael ei thrin drwy gynrychioliadau ysgrifenedig, waeth beth rydych wedi'i ddweud yn flaenorol.** Gwerthfawrogir eich cydweithrediad yn hyn o beth.

Byddai hefyd o gymorth i'r swyddog rhaglen pe gallech gadarnhau eich manylion cyswllt, yn enwedig eich cyfeiriad e-bost (os oes gennych un) gan y byddwn yn cyfathrebu â chi yn y dyfodol yn electronig cyn belled ag y bo modd. Nodwch eich rhif adnabod cynrychiolydd a ddangosir ar frig y llythyr hwn ym mhob gohebiaeth.

**Gwybodaeth ac arweiniad am yr archwiliad**

Mae gwefan yr archwiliad yn darparu gwybodaeth gyfredol am yr archwiliad a'r gwrandawiadau: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwiliad-2025. Bydd dogfennau a gyflwynir gan yr arolygydd, y swyddog rhaglen, y cyngor ac eraill yn cael eu cyhoeddi ar y wefan hon. Dylech ei gwirio'n rheolaidd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys newidiadau i raglen y gwrandawiadau.

Ni chynhelir cyfarfod cyn-wrandawiad ar gyfer yr archwiliad hwn. Yn lle hynny, mae nodyn cyfarwyddyd i gyfranogwyr wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r llythyr hwn ar wefan yr archwiliad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddarllen yn ofalus ac yn cydymffurfio â'r canllawiau yn ystod yr archwiliad.

Mae'r cyngor yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd am weld copïau caled o ddogfennau'r archwiliad gysylltu â'r swyddog rhaglen a fydd yn hapus i gynorthwyo.

**Cyfieithu a chymorth arbennig mewn gwrandawiadau**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd dogfennau'r archwiliad ar gael yn ddwyieithog. Lle mae rhai neu bob cyfranogwr mewn gwrandawiad wedi nodi ei bod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, trefnir cyfleusterau cyfieithu. Os ydych chi'n bwriadu siarad Cymraeg mewn gwrandawiad, byddai'n werthfawr pe gallech gadarnhau hyn gyda'r swyddog rhaglen cyn gynted â phosibl cyn y digwyddiad fel y gall y cyngor wneud y trefniadau angenrheidiol. Ni fydd peidio â rhoi gwybod i ni ymlaen llaw yn effeithio ar eich hawl i gymryd rhan yn y Gymraeg, ond gall ohirio'r trafodion tra bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu trefnu.

Dylai cyfranogwyr sydd â gofynion penodol ac sydd angen cymorth yn ystod yr arhchwiliad gysylltu â'r swyddog rhaglen cyn gynted â phosibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, cysylltwch â mi drwy'r swyddog rhaglen.

Yn gywir

Ian Stevens
Arolygydd